O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2007 Rhif 2597 (Cy.220)

TIROEDD COMIN, CYMRU

Rheoliadau Cofrestru Tiroedd Comin (Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2007

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu, ar 1 Hydref 2007, y darpariaethau yn Rheoliadau Cofrestru Tiroedd Comin (Cyffredinol) 1966 (O.S. 1966/1471) ("Rheoliadau 1966") sy'n ymwneud â chwiliadau swyddogol o gofrestrau'r tiroedd comin a thystysgrifau chwiliad swyddogol i'r graddau y mae'r darpariaethau hynny yn gymwys o ran Cymru ac maent yn gwneud diwygiad cysylltiedig i'r Rheoliadau hynny.

Bydd modd gwneud chwiliad o gofrestrau'r tiroedd comin yn hytrach drwy'r cwestiwn newydd a ychwanegwyd at Ran II o'r Ffurflen Ymholiadau Atodol i Awdurdod CON 29O ddiwygiedig.

Mae Rheoliad 35 (cyflenwi ffurflenni penodol) o Reoliadau 1966 hefyd wedi ei ddirymu oherwydd nad yw'r trefniadau i Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus (Y Llyfrfa gynt) gyflenwi'r ffurflenni a bennir yn y rheoliad hwnnw yn parhau.

Cyhoeddwyd asesiad effaith rheoleiddiol llawn ar effaith y newid yn y trefniadau ar gyfer chwiliadau o gofrestrau'r tiroedd comin ar gyfer Deddf Tiroedd Comin 2006 (p.26). Gellir gweld yr asesiad ar wefan Defra yn www.defra.gov.uk.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2007 Rhif 2597 (Cy.220)

TIROEDD COMIN, CYMRU

Rheoliadau Cofrestru Tiroedd Comin (Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2007

Gwnaed *4 Medi 2007*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru
6 Medi 2007

Yn dod i rym *1 Hydref 2007*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a freiniwyd ynddynt(**1**) gan adran 19(1) o Ddeddf Cofrestru Tiroedd Comin 1965(**2**):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cofrestru Tiroedd Comin (Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2007.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Hydref 2007.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(4) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Rheoliadau 1966" *("the 1966 Regulations")* yw Rheoliadau Cofrestru Tiroedd Comin (Cyffredinol) 1966(**3**).

(**1**) O ran Cymru, cafodd swyddogaethau'r Gweinidog eu trosglwyddo i Ysgrifennydd Gwladol Cymru gan Orchymyn y Weinyddiaeth Tir ac Adnoddau Naturiol (Diddymu) 1967 (O.S. 1967/156). Trosglwyddwyd swyddogaethau Ysgrifennydd Gwladol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac maent bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) 1965 p.64. *Gweler* adran 22(1) ar gyfer y diffiniadau o "the Minister" ac o "prescribed".

(**3**) O.S. 1966/1471; mae O.S. 1980/1195 (a ddirymwyd gan O.S. 1989/2167), 1982/210, 1989/2167 a 2003/994 (Cy.143) yn offerynnau diwygio perthnasol.

Dirymu

2. Mae'r darpariaethau a ganlyn o Reoliadau 1966 wedi eu dirymu-

(a) rheoliad 32 (chwiliadau swyddogol a thystysgrifau swyddogol);

(b) rheoliad 35 (cyflenwi ffurflenni penodol);

(c) yn Atodlen 1 (ffurflenni), Ffurflen 21 a'r dyblygiad ohoni; ac

(ch) yn Atodlen 3 (ffioedd ar gyfer chwiliadau etc.), yr eitem gyntaf a'r ail eitem yn y tabl.

3. Mae'r Rheoliadau a ganlyn wedi eu dirymu -

(a) Rheoliadau Cofrestru Tiroedd Comin (Cyffredinol) (Diwygio) 1982(**1**);

(b) Rheoliadau Cofrestru Tiroedd Comin (Cyffredinol) (Diwygio) 1989(**2**); ac

(c) Rheoliadau Cofrestru Tiroedd Comin (Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2003(**3**).

Diwygio Rheoliadau 1966

4. Yn rheoliad 34(1) o Reoliadau 1966, yn lle "for searches and official certificates of search, and for certified copies and extracts", rhodder " for certified copies and extracts".

Jane Davidson

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, un o Weinidogion Cymru

4 Medi
2007

(**1**) O.S. 1982/210.
(**2**) O.S. 1989/2167.
(**3**) O.S. 2003/994 (Cy.143).